# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES AM

## Y DDAMWAIN DRUENUS

A DDYGWYDDODD I

*Un-ar-bymtheg-ar-hugain o Löwyr*,

YN NGWAITH MR. BROWN, BLAENAU GWENT

GERLLAW NANT-Y-GLO,

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 17eg, 1837,

Sef i'r *Damp* danio, fel y lladdwyd deuddeg o honynt yn feirwon yn y fan; bu farw un arall dranoeth, a'r tri-ar-hugain ereill a archollwyd mwy neu lai.

Enwau ac oedran y rhai a fuant feirw; David Thomas, 17, gweddw; Edward Morgan, 58, priod; Thomas Harry, 75, priod; William Harry, 19, gweddw; William Lewis, 9; John Wilkins, 22, priod; William Jones, 22, gweddw; William Lawrence, 35, gweddw; Rees Williams, 19, gweddw; Hopkin Hopkin, 29, gweddw; Thomas Evans, 53 gweddw; Thomas Edmunds, 34, gweddw; John Williams, 37, gweddw.

---

Cenir ar '*Diniweidrwydd.*'

---

1. Nes'wch Gymry mwyn parchedig,
Rai caredig ddiddig ddawn,
Rhoddwch ateb i mi'n ufydd,
Ar foreuddydd neu brydnhawn,
Beth yw'r ochain mawr a'r gwaeddi,
A'r galaru, a'r synnu sydd,
O Nant-y-Glo i lawr i'r Blaenau,
Gan ugeiniau a'u bronau'n brudd!

2. Clywaf ateb, mi ddych'mygaf,
Gan yr Angeu a'i gleddyf glâs,
Myfi a barodd yr ochneidiau,
A'r holl ofidiau blina' blas;
Myfi i'r Blaenau a dramwyodd,
Myfi a roddodd archoll rydd,
Nes ydyw pawb o'r gweithwyr hawddgar
gyd mewn galar yn ddigudd.

3. Ar ddydd Sadwrn yn y boreu,
'Nelodd angeu ei saethau syn,
Cofio'r diwrnod hynod hwnw
Sydd yn synu bro a bryn;
Yr ail ar bymtheg o Fehefin,
Dyma ddydd y dychryn dwys;
Wrth ei gofio, cawn ugeiniau
Mewn gruddfanau poenau pwys.

4. Pan wrth eu gorchwyl megys brodyr,
Yr ydoedd llu o'r glöwyr glân,
Fel arferol, ar foreu-ddydd,
Gyda eu gilydd heb wahân,
Oll yn iach heb neb yn ofni
Caffael profi calon brudd,
Nes dygwyddodd tro galarus,
Oddeutu deg o'r gloch o'r dydd.

5. Gyda'u gwaith i gyd yn gywir,
'Roedd y glöwyr hardd o glod,
A'r *damp* a daniodd yno'n ebrwydd,
Mor annedrwydd oedd y nod;
Modd i gilio nid oedd yno,
Trwm yw ceisio cofio'r gwg;
Nid oedd mewn golwg, O! mor galed,
Yn y man, ond tân a mwg.

6. Yn ofer weithian gwyn a gruddfan,
Ofer llefain am wellhad,
Galar lanwodd eu calonau,
Dychryniadau briwiau brad;
Nid oes a ddirnad pwy mor drymed,
Oent i'w gweled yno i gyd,
Oll yn ofni cael eu gyru
O flaen yr hwn sy'n barnu'r byd.

7. Cafodd deuddeg yno eu diwedd,
O! mor brudded oedd y briw,
I'w perthynasau tro truenus
Galarus ac arswydus yw,
Gwragedd gweddwon sydd alarus,
Oll, ac anghysurus iawn,
Ar ol eu gwŷr mewn gwastad gystudd,
Darfu eu llawenydd llawn.

O mor drymed oedd eu gweled,
...ra'r profiad prudd ?
...n tyrfa hawddgar,
...alar yn ddigudd,

X2051994|X

Ugain llawn ac un ar-bymtheg,
Dirfawr ofid enbyd oedd,
I gyd a gaed yn archolledig,
O! 'r fath wasga blina bloedd.
9. Deuddeg aeth i'r byd trag'wyddol,
Dyma boen anrhaethol bwys,
Y lleill a welir dan eu clwyfau,
Pwy all goffa'r ddamwain ddwys;
Un arall dranoeth a fu farw,
Trwm yw traethu'r chwerw dro,
Pan yn cofio loesion angeu,
Am hyn galara Nant-y-Glo.
10. Boed i'r rhai sydd dan eu clwyfau,
Mi obeithaf tra b'ont byw,
Dalu diolch i'w Creawdydd,
Eu hunig ddoeth waredydd yw,
E yw'r amddiffynfa lawen,
Dyma'r Graig a'r Sylfaen gref,
Brenin Alpha, Duw y duwiau,
Teilwng Noddfa teulu'r nef.
11. Un Edward Morgan a fu farw,
Hwn a gofiwn yn ddigudd,
Naw neu ddeg o blant amddifaid
Sydd ar ei ol a'u bronau'n brudd,
Heblaw ei wraig sy'n wylo'n waeledd,
Am ei chydmar gweddaidd gwiw,
A roed i bydru yn y beddrod,
Dirfawr drallod hynod yw.
12. Ca'dd Thomas Harries a'i fab William,
Drom farwolaeth, alaeth yw,
'Roedd ef yn bymtheg mlwydd a thri-ugain,
Pan aeth i'r bedd o blith y byw,
A'i fab yn bedair blwydd ar bymtheg,
Blodau adeg wiwdeg wedd,
Golwg waeledd oedd eu gweled,
Yn 'mado â'r byd a myn'd i'r bedd.
13. 'Roedd Hopkin Hopkins, medd yr hanes,
Dan bwynt priodas urddas hael,
Ond gorfu fyn'd, yn lle priodi,
I bydru yn y gwely gwael;
Er mor ffyddlon yw amcanion
Meibion dynion yma 'nawr,
Pan ddel angeu glas â'i gleddyf,
Ni arbeda gwychaeu gwawr.

14. Dau a losgodd mor druenus,
Tro galarus aethus oedd,
Sef Thomas Edmunds a John Wilkins,
Dyma y gwir i gyd ar g'oedd,
Fel pe buasent wedi eu rhostio,
Trwm yw ceisio cofio'r cur,
Gwelir tristwch yn ein gwledydd,
Yn awr o'u herwydd amser hir.
15. Am Evan Jones bu chwilio lawer,
Cyn ei gael o'r dyfnder dwys,
Mae hwn yn fyw, fe dystia'n rymus,
Am y galarus boenus bwys;
Tu ol i dalp o lô fe'i cafwyd,
Mae hyn yn ofid dan y nef,
Ac un o'r meirwon, O! 'r fath arswyd,
Yn pwyso ar ei forddwyd ef.
16. Dyma dro truenus hynod,
Wedi dyfod yn ein dydd,
Tro a wna i rai ugeiniau
Wylo dagrau a'u bronau'n brudd;
Pawb a gofiant eu cyfeillion,
Hardd, a mwynion, wiwlon wedd,
Sydd wedi myned yn ddamweiniol,
Oll yn awr i farwol fedd.
17. Cofio eu chwedlau bydd eu ffryndiau,
Cofio eu geiriau goleu gwiw,
Ni bydd neb yn sych ei lygaid,
Erchyll deimlad, brathiad briw;
Pawb a gofia ei ffrynd anwyla',
Mewn gofidia' c'leta clwy',
Sydd 'nawr yn oer briddellau'r dyffryn,
Byth ni welir mo'nynt mwy.
18. Boed y ddamwain hon yn rhybudd,
I ni beunydd, tra f'om byw,
I'n gwneud yn barod hwyr a boreu,
I rodio llwybrau deddfau Duw;
Cofia ni yn dy drugaredd,
rhwyddaidd, îs y rhôd,
bydd i ni'n Geidwad nerthol,
glwydd grasol nefol nod.

Richard Williams, a'i cant.

---

PRICE, ARGRAFFYDD, MERTHYR.